Adolygiad o Ddatganiadau Cydymffurfiaeth 2018

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.cymwysteraucymru.org

Cynnwys

1. Cyflwyniad 2

2. Y broses datganiadau cydymffurfiaeth 3

3. Cydymffurfiaeth 4

3.1 Crynodeb o gydymffurfiaeth 4

3.2 Diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol fesul adran o'n Hamodau Cydnabod Safonol 6

3.3 Diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol fesul amodau unigol 8

4. Llinellau Ymholi 11

4.1 Crynodeb o'r ymatebion 11

4.2 Gwrthdaro Buddiannau 11

4.3 Camweinyddu a chamymddwyn 12

4.4 Trefniadau ar gyfer addasiadau rhesymol ac ystyriaeth arbennig 13

5. Ein hymateb i'r datganiadau cydymffurfiaeth 14

5.1 Ceisiadau am ragor o wybodaeth 14

5.2 Cynlluniau gweithredu 15

5.3 Cyfeiriad at y rheoleiddiwr 16

6. Proses datganiadau cydymffurfiaeth 2019 16

7. Atodiad 1 17

1. Cyflwyniad

Cymwysterau Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yng Nghymru. Rydym yn rheoleiddio er mwyn cyflawni ein prif nodau, sef sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru.

Rydym yn rheoleiddio cyrff dyfarnu yn erbyn ein Hamodau Cydnabod Safonol . Mae Amod B2.1 o'n Hamodau Cydnabod Safonol yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff dyfarnu cydnabyddedig gyflwyno datganiad cydymffurfiaeth blynyddol i ni. Mae'r datganiad cydymffurfiaeth yn seiliedig ar broses hunanwerthuso'r corff dyfarnu o'i statws cydymffurfiaeth yn erbyn yr holl Amodau Cydnabod Safonol. Rydym yn disgwyl i gyrff dyfarnu gael proses effeithiol ar waith er mwyn monitro eu cydymffurfiaeth yn barhaus. Gall cyrff dyfarnu sydd â phrosesau hunanwerthuso effeithiol ar waith nodi diffyg cydymffurfio presennol a / neu debygol. Gan ddibynnu ar natur y diffyg cydymffurfio, efallai na fydd hwn yn bryder sylweddol os oes ganddynt gynllun clir ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r mater a dychwelyd at gydymffurfiaeth lawn.

Mae'r datganiad cydymffurfiaeth yn adnodd monitro allweddol sy'n ategu ein dull rheoleiddio a arweinir gan wybodaeth ac sy'n seiliedig ar risg. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth a gesglir o'r datganiadau cydymffurfiaeth, ynghyd â gwybodaeth a thystiolaeth arall, i fonitro cydymffurfiaeth cyrff dyfarnu â'n Hamodau Cydnabod Safonol.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio sut y gwnaethom yr adolygwyd y datganiadau cydymffurfiaeth ar gyfer 2018 ac yn crynhoi ein prif ganfyddiadau.

2. Y broses datganiadau cydymffurfiaeth

Yn natganiad cydymffurfiaeth 2018, gwnaethom ofyn i gyrff dyfarnu gadarnhau pa un a oeddent:

- yn cydymffurfio'n llawn â'n holl Amodau Cydnabod Safonol;
- yn debygol o fethu â chydymffurfio ag unrhyw rai o'n Hamodau Cydnabod Safonol o fewn y 12 mis nesaf.

Os oedd corff dyfarnu yn datgan ei fod yn methu â chydymffurfio, neu'n debygol o fethu â chydymffurfio o fewn y 12 mis nesaf, gwnaethom ofyn iddo gyflwyno cynllun gweithredu yn nodi'r camau yr oedd yn eu cymryd a/neu'n bwriadu eu cymryd er mwyn cydymffurfio.

Ar gyfer 2018, gwnaethom gynnwys ceisiadau llinellau ymholi ychwanegol am wybodaeth a thystiolaeth o fewn y datganiad cydymffurfiaeth. Gwnaethom ofyn i gyrff dyfarnu wneud y canlynol:

- disgrifio sut y maent yn nodi ac yn rheoli achosion o wrthdaro buddiannau (amod A4).
- disgrifio eu gweithdrefn ar gyfer nodi, rheoli ac ymchwilio i achosion o gamymddwyn a chamweinyddu (amod A8).
- disgrifio eu gweithdrefnau ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol a rhoi ystyriaeth arbennig i ddysgwyr (amodau G6 a G7).

Cyflwynodd cyrff dyfarnu eu datganiad cydymffurfiaeth yn electronig drwy ein cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW).

3. Cydymffurfiaeth

3.1 Crynodeb o gydymffurfiaeth

Cyflwynodd pob un (106) o'r cyrff dyfarnu a oedd yn cael eu rheoleiddio gennym ar ddyddiad cau'r cyfnod cyflwyno datganiad cydymffurfiaeth (28 Medi 2018), ddatganiadau cydymffurfiaeth i ni. Gwnaethom adolygu pob un o'r 106 o ddatganiadau cydymffurfiaeth yn fanwl ac ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol arall sydd gennym am bob corff dyfarnu. Cyflwynir ein canfyddiadau yn y graff isod.



Graff 1: Canfyddiadau ynglŷn â'r datganiadau cydymffurfiaeth yn dilyn adolygiad

Cafwyd gennym fod 76% (81 o 106) o'r cyrff dyfarnu yn cydymffurfio â'r holl Amodau Cydnabod Safonol ac yn debygol o gydymffurfio â'r holl Amodau Cydnabod Safonol

dros y 12 mis nesaf, o gymharu ag 86% (96 o 112) yn 2017. Roedd 24% (25 o 106) o'r cyrff dyfarnu yn methu â chydymffurfio a/neu'n debygol o fethu â chydymffurfio yn y dyfodol, o gymharu â 14% (16 o 112) yn 2017.

Ar ôl cyflwyno eu datganiadau, gwnaeth dau gorff dyfarnu ildio eu cydnabyddiaeth yng Nghymru. Roedd un o'r cyrff dyfarnu hyn wedi datgan ei fod yn cydymffurfio ar hyn o bryd ac yn debygol o gydymffurfio yn y dyfodol, gwnaeth y llall ddatgan nad oedd yn cydymffurfio ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, ar ôl i gamau gorfodi gael eu cymryd, tynnwyd cydnabyddiaeth un corff dyfarnu yng Nghymru yn ôl yn ffurfiol. Roedd y corff dyfarnu hwn wedi datgan yn wreiddiol nad oedd yn cydymffurfio â'r Amodau Cydnabod Safonol ar hyn o bryd.

Roedd pum corff dyfarnu, a oedd wedi datgan eu bod yn methu â chydymffurfio yn 2017, wedi datgan eu bod yn methu â chydymffurfio â'r un amodau yn eu datganiadau yn 2018. Rydym wedi parhau i fonitro'r cynlluniau gweithredu hyn ac rydym wedi cael sicrwydd boddhaol eu bod yn mynd i'r afael â'r materion hyn, gyda phob un o'r pum corff dyfarnu yn symud tuag at sicrhau cydymffurfiaeth.

3.2 Diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol fesul adran o'n Hamodau Cydnabod Safonol

Ar gyfer y 25 o gyrff dyfarnu nad oeddent yn cydymffurfio ar hyn o bryd a/neu sy'n debygol o fethu â chydymffurfio yn y dyfodol, dengys y graff isod yr achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth/diffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol fesul adran o'n Hamodau Cydnabod Safonol.



Graff 2: Diffyg cydymffurfiaeth presennol a diffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol yn ôl adran o'r Amodau Cydnabod Safonol yn dilyn adolygiad

Fel yn y tair blynedd flaenorol, yr adran amlaf o'n Hamodau Cydnabod Safonol yr oedd cyrff dyfarnu wedi methu â chydymffurfio â hi a/neu'n debygol o fethu â chydymffurfio â hi yn y dyfodol oedd Llywodraethu (adran A). Roedd cyfanswm o 16 o gyrff dyfarnu yn methu â chydymffurfio ag amodau Llywodraethu. O'r 16 hyn, gwnaeth wyth ohonynt ddatgan eu bod yn methu â chydymffurfio â'r adran hon ar hyn o bryd.

Datganodd pum corff dyfarnu eu bod yn methu â chydymffurfio ar hyn o bryd ac yn debygol o fethu â chydymffurfio yn y dyfodol, a datganodd y tri a oedd yn weddill eu bod ond yn debygol o gydymffurfio yn y dyfodol.

Y categori amlaf ond un o ran diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol oedd adran E (Dylunio a datblygu cymwysterau). Adran E yw'r adran amlaf ond un o ran datganiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth dros y ddwy flynedd flaenorol. Gwnaeth pum corff dyfarnu ddatgan eu bod yn methu â chydymffurfio ar hyn o bryd a gwnaeth dau ddatgan eu bod yn methu â chydymffurfio ar hyn o bryd ac yn debygol o fethu â chydymffurfio yn y dyfodol. Roedd a wnelo pedwar o'r saith datganiad ar gyfer adran E â phennu cyfanswm amser cymhwyso ar gyfer cymwysterau.

Y categorïau amlaf ond dau o ran diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol oedd adran C (Trydydd Partïon) ac adran G (Pennu a chyflawni'r asesiad). Roedd y ddwy adran yn cynnwys chwe chorff dyfarnu a oedd yn datgan eu bod yn methu â chydymffurfio ar hyn o bryd ac yn debygol o fethu â chydymffurfio yn y dyfodol.

Ar gyfer adran C, gwnaeth 5 corff dyfarnu ddatgan eu bod yn methu â chydymffurfio ar hyn o bryd a gwnaeth un corff dyfarnu ddatgan eu bod yn methu â chydymffurfio ar hyn o bryd ac yn debygol o fethu â chydymffurfio yn y dyfodol. Roedd y datganiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth ond yn ymwneud ag Amod C1 (Trefniadau gyda thrydydd partïon) ac Amod C2 (Trefniadau gyda chanolfannau).

Gwnaeth mwy o gyrff ddatgan eu bod yn methu â chydymffurfio a/neu eu bod yn debygol o fethu â chydymffurfio ag adran G yn y dyfodol o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Gwnaeth pedwar corff ddatgan eu bod yn methu â chydymffurfio â'r adran hon ar hyn o bryd. Datganodd un corff dyfarnu ei fod yn methu â chydymffurfio ar hyn o bryd ac yn debygol o fethu â chydymffurfio yn y dyfodol, a datganodd un arall ei fod yn debygol o fethu â chydymffurfio yn y dyfodol yn unig. Roedd y datganiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth yn canolbwyntio ar bennu asesiadau, cynnal cyfrinachedd deunyddiau asesu a sicrhau y caiff asesiadau eu cwblhau yn unol â'r amodau gofynnol.

3.3 Diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol fesul amodau unigol

Dengys y graff isod yr amodau y nodwyd diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol â nhw amlaf.



Graff 3: Diffyg cydymffurfiaeth presennol a diffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol yn ôl amod unigol o'r Amodau Cydnabod Safonol yn dilyn adolygiad

Yr amod unigol amlaf o ran diffyg cydymffurfiaeth a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol oedd A1, yn ymwneud ag addasrwydd i barhau i gael ei gydnabod. Gwnaeth saith corff dyfarnu ddatgan eu bod yn methu â chydymffurfio a/neu eu bod yn debygol o fethu â chydymffurfio â'r amod hwn yn y dyfodol. Gwnaeth pump o'r saith corff dyfarnu ddatgan yn benodol eu bod yn methu â chydymffurfio/a neu eu bod yn debygol o fethu â chydymffurfio ag Amod A1.3(a) yn y dyfodol, o gymharu â dau ddatganiad yn 2017. Gwnaeth un corff dyfarnu ddatgan ei fod yn methu â chydymffurfio â'r amod hwn am yr ail flwyddyn. Mae Amod A1.3(a) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu fod wedi dyfarnu cymwysterau yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Nid yw diffyg cydymffurfiaeth â'r amod hwn yn adlewyrchu'n negyddol ar ansawdd darpariaeth corff dyfarnu, ond, yn hytrach, yn rhoi

ffordd o nodi cyrff dyfarnu nad oes angen iddynt o bosibl gynnal eu statws cydnabyddedig yng Nghymru o ganlyniad i ddiffyg galw am eu cymwysterau.

Mae lefel y risg i'r system gymwysterau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â methu â chydymffurfio ag Amod A1.3(a) yn isel. Mae pob corff dyfarnu sy'n datgan ei fod yn methu â chydymffurfio a /neu ei fod yn debygol o fethu â chydymffurfio â'r amod hwn yn y dyfodol wedi darparu tystiolaeth yn ei gynlluniau gweithredu o'r ffordd y mae'n mynd ati'n weithredol i gynyddu ei weithgarwch dyfarnu yng Nghymru dros y 12 mis nesaf.

Yr amod unigol amlaf ond un o ran diffyg cydymffurfiaeth ar hyn o bryd a/neu ddiffyg cydymffurfiaeth tebygol yn y dyfodol oedd A8, sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau sydd gan gorff dyfarnu ar waith i reoli ac atal honiadau o gamymddwyn a chamweinyddu. Gwnaeth chwe chorff dyfarnu ddatgan eu bod yn methu â chydymffurfio a/neu eu bod yn debygol o fethu â chydymffurfio â'r amod hwn yn y dyfodol o gymharu â dau yn 2017.

Yr amod nesaf oedd Amod A6 (Nodi a rheoli risgiau). Gwnaeth pum corff dyfarnu ddatgan eu bod yn methu â chydymffurfio ag A6, o gymharu â thri datganiad yn 2017. O ystyried effaith sylweddol bosibl methu â chydymffurfio â'r amodau hyn, rydym wedi cynnwys Amodau A8 ac A6 yn ein llinellau ymholi yn y datganiad cydymffurfiaeth dros y ddwy flynedd flaenorol. Yn ogystal â hyn, mae pob corff dyfarnu sy'n datgan ei fod yn methu â chydymffurfio a/neu ei fod yn debygol o fethu â chydymffurfio â'r amodau hyn yn y dyfodol wedi darparu tystiolaeth o'r camau y mae'n eu cymryd i atgyfnerthu'r prosesau sicrhau ansawdd ac asesu risg allanol sydd ar waith ganddo. Rydym yn adolygu cynnydd pob corff dyfarnu yn erbyn ei gynllun gweithredu yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn dychwelyd i gydymffurfiaeth lawn cyn gynted â phosibl a lleihau'r tebygolrwydd o effaith andwyol ar ddysgwyr.

Amod C1 (Trefniadau gyda thrydydd partïon) ac C2 (Trefniadau gyda chanolfannau) oedd y bedwaredd set o amodau a ddatganwyd amlaf o ran diffyg cydymffurfiaeth. Mae cyrff dyfarnu sy'n datgan eu bod yn methu â chydymffurfio â'r amodau hyn wedi

darparu cynlluniau gweithredu er mwyn datblygu eu prosesau cymeradwyo canolfannau ac atgyfnerthu'r trefniadau sydd ganddynt ar waith gydag is-gontractwyr.

Gwelwyd cydberthynas rhwng meysydd diffyg cydymffurfiaeth a gweithgarwch monitro a wnaed gan CCEA, Ofqual a Cymwysterau Cymru. Gwnaeth cyrff dyfarnu a oedd wedi datgan eu bod yn methu â chydymffurfio yn dilyn gweithgarwch rheoleiddiol, nodi hyn yn eu cynlluniau gweithredu.

4. Ymatebion llinellau ymholi

4.1 Crynodeb o'r ymatebion

Roedd ansawdd cyffredinol yr ymatebion i linell ymholi wedi gwella ar y cyfan eleni. Fodd bynnag, roedd ansawdd yr ymatebion o hyd yn amrywio'n sylweddol rhwng y cyrff. Roedd cyrff dyfarnu, yr ystyrir bod eu cyflwyniadau'n gryf, yn rhoi eu hymatebion testun mewn trefn is-benawdau yn ôl is-adrannau amodau. O dan y penawdau hyn, rhoddwyd esboniad cryno o'r ffordd roedd y corff dyfarnu yn cydymffurfio â'r is-amod. Roedd yr esboniadau hyn yn cyfeirio'n glir at adrannau perthnasol o'r dystiolaeth ategol. Ar gyfer pob llinell ymholi, darparodd ymatebion cryfach dystiolaeth o adolygiadau rheolaidd o bolisïau a phrosesau.

Roedd cyrff dyfarnu gyda chyflwyniadau gwannach yn darparu ymatebion testun heb strwythur na manylion ac nid oeddent yn cyfeirio'n glir at adrannau perthnasol o'r ddogfennaeth ategol. Yn aml, roedd gorddibyniaeth ar ddarparu nifer o ddogfennau ategol nad oedd cysylltiad clir bob amser rhyngddynt hwy a'r amod hwn. Mewn rhai achosion, roedd angen i nifer o ddogfennau gael eu hadolygu er mwyn canfod y prosesau a'r systemau a oedd ar waith gan gorff dyfarnu.

4.2 Gwrthdaro Buddiannau

Gofynnwyd i gyrff dyfarnu ddisgrifio sut y maent yn nodi ac yn rheoli achosion o wrthdaro buddiannau (amod A4).

Amlinellodd yr ymatebion cryfach broses glir ar gyfer rheoli a monitro achosion o wrthdaro buddiannau ac roedd wedi'i hategu gan dystiolaeth briodol. Gofynnwyd am hunanddatganiadau blynyddol gan y staff a darparwyd manylion cynhwysfawr o ran sut roedd y datganiadau hyn yn cael eu monitro a chan bwy. Roedd ymatebion cryfach hefyd yn darparu dogfennau a oedd yn amlinellu achosion canfyddedig neu debygol o wrthdaro buddiannau a allai godi a'r camau lliniaru a oedd ar waith gan y corff dyfarnu er mwyn cyfyngu ar debygolrwydd ac effaith digwyddiad o'r fath. Roedd rhai ymatebion hefyd yn nodi'r gwahaniaeth rhwng y ffordd roeddent yn rheoli achosion o

wrthdaro buddiannau ym mhob rhan o'r sefydliad gan gyfeirio'n benodol at y ffordd roeddent yn monitro achosion o wrthdaro buddiannau yn eu canolfannau cymeradwy a gydag is-gontractwyr. Roedd proses ar waith i atal staff a oedd â diddordeb personol mewn asesiadau dysgwyr rhag ymwneud â'r asesiadau hynny, ac roedd y broses hon wedi'i dogfennu'n glir o fewn y dystiolaeth a ddarparwyd.

Nid oedd yr ymatebion gwannach yn darparu tystiolaeth o fonitro datganiadau o wrthdaro buddiannau yn rhagweithiol. Y staff oedd yn gyfrifol am ddatgan achos o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag yr oedd yn codi, ac nid oedd yn ofynnol i bob aelod o staff wneud datganiadau blynyddol mewn perthynas â hyn. Nid oedd y ffordd yr oedd y corff dyfarnu yn cymryd camau lliniaru yn erbyn aelod o staff â diddordeb personol mewn asesiadau dysgwyr yn glir bob amser.

4.3 Camymddwyn a Chamweinyddu

Gofynnwyd i gyrff dyfarnu ddisgrifio eu gweithdrefn ar gyfer nodi, rheoli ac ymchwilio i achosion o gamymddwyn a chamweinyddu (amod A8).

Roedd ymatebion cryfach yn amlinellu'n glir y camau yr oedd corff dyfarnu yn eu cymryd er mwyn atal achosion o gamymddwyn neu gamweinyddu wrth ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau. Nodwyd gwahaniaeth rhwng canolfannau yn camymddwyn a dysgwyr yn camymddwyn, a gwelwyd tystiolaeth o broses ymchwilio gynhwysfawr a oedd yn amlinellu'r camau i'w dilyn. Roedd dogfennau ategol yn cyfeirio defnyddwyr yn glir at bolisïau ar wahân ar apeliadau a sancsiynau. Roedd gwaith monitro canolfannau yn glir drwy brosesau sicrhau ansawdd allanol a chanllawiau ychwanegol a darparwyd hyfforddiant i ganolfannau yn barhaus er mwyn helpu i atal achosion o gamymddwyn a chamweinyddu rhag digwydd.

Roedd yr ymatebion gwannach yn rhoi cyfeiriad sylfaenol at y broses ymchwilio a'r camau y gellid eu cymryd os profwyd bod achos o gamymddwyn a/neu gamweinyddu wedi digwydd. Darparwyd tystiolaeth gyfyngedig o fonitro canolfannau.

4.4 Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig

Gofynnwyd i gyrff dyfarnu ddisgrifio eu gweithdrefnau ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol a rhoi ystyriaeth arbennig i ddysgwyr (amodau G6 a G7).

Roedd ymatebion cryfach yn dangos prosesau a oedd wedi'u hategu'n glir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nodwyd gwahaniaethau clir rhwng addasiadau rhesymol ac ystyriaeth arbennig. Roedd proses ymgeisio a chymeradwyo fanwl yn amlinellu'r meini prawf cymhwysedd a'r addasiadau y gellid eu cymhwyso yn amlwg. Lle roedd gan ganolfannau ganiatâd i awdurdodi addasiadau rhesymol ar ran corff dyfarnu, roedd prosesau craffu a monitro rheolaidd ar waith ar gyfer y penderfyniadau hyn.

Roedd ymatebion gwannach yn darparu tystiolaeth o brosesau a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar addasiadau rhesymol yn hytrach nag ystyriaeth arbennig. Mewn rhai achosion, darparwyd canllawiau cyfyngedig, os o gwbl, mewn perthynas â chymhwysedd a'r broses ymgeisio.

5. Ein hymateb i'r datganiadau cydymffurfiaeth

5.1 Ceisiadau am ragor o wybodaeth

Er i ni nodi bod ansawdd cyffredinol yr ymatebion wedi gwella eleni, roedd yr ymatebion yn amrywio rhwng y cyrff dyfarnu. Prin oedd y wybodaeth a gynhwyswyd gan rai cyrff dyfarnu ac nid ategwyd y wybodaeth honno gan dystiolaeth, ond darparodd eraill wybodaeth fanwl a gwerthusol iawn, gyda chysylltiad clir rhwng testun yr ymateb ar bapur a'r dystiolaeth ategol.

Felly, gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol gan 26% (28 o 106) o'r holl gyrff dyfarnu, yn bennaf am fod eu datganiadau yn aneglur neu'n cynnwys tystiolaeth annigonol. Gellir cymharu hyn â ffigur 2017 sef 41% (46 o 112). Roedd yn ofynnol i rai cyrff dyfarnu ddarparu rhagor o wybodaeth am fwy nag un llinell ymholi, fel y dangosir yn y graff isod.



Graff 4: Cais am ragor o wybodaeth yn ôl nifer y llinellau ymholi

Mae'r graff isod yn dangos categorïau'r ceisiadau am ragor o wybodaeth ar gyfer tair llinell ymholi. Y categori mwyaf cyffredin lle'r oedd angen eglurhad pellach oedd y llinell ymholi yn ymwneud â chamymddwyn a chamweinyddu.



Graff 5: Cais am ragor o wybodaeth yn ôl categori o linell ymholi

Cawsom ymatebion boddhaol i bob un o'n ceisiadau am ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth gan gyrff dyfarnu. Mewn lleiafrif o achosion, nododd cyrff dyfarnu yn ystod yr adolygiad hwn nad oedd eu polisïau na'u prosesau presennol yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r amodau a rhoddwyd tystiolaeth i ni fod y rhain wedi'u diweddaru bellach.

5.2 Cynlluniau gweithredu

Gofynnwyd i bob un o'r cyrff dyfarnu (25) a oedd yn methu â chydymffurfio a / neu'n debygol o fethu â chydymffurfio baratoi cynlluniau gweithredu dros y 12 mis nesaf. Rydym yn monitro'r cynlluniau gweithredu hyn yn rheolaidd a, lle y bo'n briodol, byddwn yn cynnal gweithgarwch monitro dilynol yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn cadarnhau bod y cynlluniau gweithredu wedi'u rhoi ar waith yn llawn. Byddwn yn defnyddio'r canlyniadau a'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod proses datganiadau cydymffurfiaeth 2018 i lywio ein rhaglen monitro cyrff dyfarnu yn y dyfodol.

5.3 Cyfeiriad at y rheoleiddiwr

Yn ystod yr adolygiad, gwnaethom nodi bod nifer sylweddol o gyrff dyfarnu (61%, 65/106) naill ai wedi hepgor neu wedi gwneud cyfeiriadau anghywir at Cymwysterau Cymru o fewn eu tystiolaeth ategol. O'r rhain, nid oedd 65, 83% (54) wedi cyfeirio at Cymwysterau Cymru na'r Amodau Cydnabod Safonol pan oedd rheoleiddwyr eraill wedi cael eu crybwyll yn benodol. Roedd yr 17% (11) o gyrff dyfarnu a oedd yn weddill wedi cyfeirio'n anghywir at Cymwysterau Cymru fel Llywodraeth Cymru neu QiW. Corff rheoleiddio annibynnol yw Cymwysterau Cymru a QiW yw ein cronfa ddata o gymwysterau cymeradwy a dynodedig.

Cysylltwyd â phob un o'r 11 o gyrff dyfarnu a oedd wedi cyfeirio'n anghywir at Cymwysterau Cymru ac ers hynny, maent wedi rhoi sicrwydd ysgrifenedig y caiff unrhyw wallau eu diwygio cyn gynted â phosibl, neu pan fydd y broses o adolygu polisïau yn caniatáu hynny. Ar gyfer pob corff dyfarnu arall, anfonwyd e-bost ffurfiol yn amlinellu arfer gorau a materion a nodwyd yn ystod yr adolygiad yn 2018 pan ddaeth y cyfnod i gyflwyno eu datganiad cydymffurfiaeth i ben yn swyddogol. Dylai pob corff sicrhau ei fod yn cyfeirio at Cymwysterau Cymru yn gywir yn ei ddogfennaeth. Byddwn yn parhau i fonitro hyn yn natganiadau cydymffurfiaeth 2019.

6. Proses datganiadau cydymffurfiaeth 2019

Bydd y cyfnod cyflwyno ar gyfer datganiadau cydymffurfiaeth 2019 rhwng 3 Mehefin a 30 Medi. Rydym yn datblygu'r llinellau ymholi ar gyfer 2019 ar hyn o bryd. Byddwn yn ysgrifennu at gyrff dyfarnu ym mis Mai 2019 i'w hysbysu o'n gofynion ar gyfer proses datganiadau cydymffurfiaeth 2019.

7. Atodiad 1 – Penawdau Amodau Cydnabod Safonol

Rhan 1 – Y corff dyfarnu	
Adran A	**Llywodraethu**
Adran B	**Y corff dyfarnu a Cymwysterau Cymru**
Adran C	**Trydydd partïon**
Rhan 2 – Y cymhwyster rheoleiddiedig	
Adran D	**Gofynion cyffredinol ar gyfer cymwysterau rheoleiddiedig**
Adran E	**Llunio a datblygu cymwysterau**
Adran F	**Darparu cymwysterau i brynwyr**
Adran G	**Gosod a chynnal yr asesiad**
Adran H	**O farcio asesiadau i gyhoeddi'r canlyniadau**
Adran I	**Apeliadau a thystysgrifau**
Adran J	**Dehongliadau a diffiniadau**